
CWESTIYNAU CYFFREDIN AM E-GYFLWYNO

Paratowyd gan y Gweithgor E-Gyflwyno

e-project@aber.ac.uk

FFEITHIAU ALLWEDDOL

NODAU

- Darparu un system gyson i fyfyrwyr ar gyfer cyflwyno aseiniadau (cam 1).
- Darparu adborth electronig i fyfyrwyr ar y mwyafrif o'u hasesiadau (cam 2)
- Darparu ffordd i staff farcio ar-lein a chyflwyno adborth electronig, os ydynt yn dymuno gwneud hynny (cam 2)

AMSERLEN

- Cam 1 – Bydd cyflwyno electronig yn weithredol ar gyfer yr holl fyfyrwyr a'r holl fodiwlau perthnasol o fis Medi 2014.
- Cam 2 – Adborth electronig i'r holl fyfyrwyr

CYNNWYS

- Cyffredinol
- Y Gymraeg
- Cyflwyno Ar-lein
- Marcio
- Adborth
- Ystyriaethau Ymarferol
- Hyfforddiant

CYFFREDINOL

PAM YDYM NI'N DEFNYDDIO CYFLWYNO ELECTRONIG NAWR?

Mae cyflwyno electronig (e-gyflwyno) yn cyfeirio at y broses a ddefnyddir pan fydd myfyriwr yn cyflwyno gwaith ar-lein i'w storio a'i adalw gan staff academiaidd, gweinyddol neu staff arall i'w farcio a rhoi adborth. Gall hyn hefyd gynnwys gwirio am lôn-ladrad gan ddefnyddio Turnitin*. Mae'n ddull effeithlon o gasglu gwaith i'w asesu gan fyfyrwyr:

- Mae'n caniatáu hyblygrwydd a hwylustod, e.e. gall myfyrwyr gyflwyno eu haseiniadau neu weld eu marciau ac adborth yn unrhyw le heb gyfyngiadau oriau swyddfa.
- Mae hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i staff ddarparu adborth cyfoethog i fyfyrwyr (gan gynnwys adborth sain).
- Mae'n caniatáu ar gyfer archifo aseiniadau, adborth a marciau y gellid cyfeirio atynt yn y dyfodol e.e. ar gyfer arholwyr allanol.
- Mae myfyrwyr eisoes yn ymgysylltu ar-lein gyda'r brifysgol mewn meysydd eraill fel defnyddio AberLearn Blackboard a'r amserlen ar-lein.

* Gwasanaeth trydydd parti yw TurnItIn ac mae gan y Brifysgol drwydded i'w ddefnyddio. Mae'n caniatáu cyflwyno aseiniadau'n electronig drwy Blackboard ac mae'n darparu adroddiadau gwreiddioldeb. <http://nexus.aber.ac.uk/xwiki/bin/view/Main/turnitin>

BETH YW'R MANTEISION I FYFYRWYR YN SGIL DEFNYDDIO E-GYFLWYNO AC ADBORTH?

- Un system drwy'r Brifysgol gyfan ar gyfer yr holl waith testun ar brosesydd geiriau sydd i'w asesu.
- Dim argraffu i fyfyrwyr.
- Gellir teipio adborth yn hytrach na'i ysgrifennu â llaw.
- Gall myfyrwyr weld eu hadborth ar unrhyw adeg drwy AberLearn Blackboard, sy'n eu galluogi i weithredu ar yr adborth yn rhwydd i wella perfformiad mewn aseiniadau yn y dyfodol.

BETH YW MANTEISION DEFNYDDIO E-GYFLWYNO, MARCIO AC ADBORTH I'R STAFF ACADEMAIDD?

- Gall staff ddechrau marcio cyn gynted ag y bydd y dyddiad cyflwyno wedi pasio (does dim angen aros i'r swyddfa brosesu'r gwaith cwrs).
- Gall staff farcio i ffwrdd o'r swyddfa ar gyfrifiadur pen desg, gliniadur neu dabled.
- Ceir nifer o ddulliau ar gyfer cyflwyno gwell adborth ar waith myfyrwyr. Mae Turnitin yn ei gwneud yn hawdd i staff gofnodi clipiau sain byr gydag adborth llafar. Gall staff lunio set o sylwadau cyffredinol, y gellir eu llusgo a'u gollwng yn syth ar sgrïptiau myfyrwyr. Gellir marcio sgrïptiau ar-lein sy'n lleihau problemau y gallai myfyrwyr eu profi gyda darllen llawysgrifen.
- Gall defnyddio'r system i'w photensial llawn leihau'r nifer o negeseuon ebost gan fyfyrwyr, oherwydd gall myfyrwyr weld eu hadborth eu hunain yn uniongyrchol heb ymyrraeth y tiwtor.
- Bydd Arholwyr Allanol yn gallu gweld trywydd archwilio clir y broses safoni. Bydd tystiolaeth y broses i'w gweld drwy'r system ar-lein.
- Arbedion cost, amser a chynnaladwyedd (llungopio a ffeilio taflenni adborth).
- Gall staff academaidd adeiladu 'cronfa' o sylwadau cyffredin a gosod y sylwadau mwyaf priodol ar y daflen adborth.
- Y potensial ar gyfer gwella ansawdd a defnyddioldeb yr adborth yn ogystal â phrydlondeb.

- Lleihad yn yr achosion o ddiffyg casglu adborth ar asesiadau myfyrwyr o'r adrannau.
- Mae nifer o astudiaethau academiaidd wedi dangos gwell ymgysylltu gydag adborth electronig. Dangosodd prosiect peilot e-adborth yn yr Adran Addysg bod myfyrwyr yn ymateb yn well i'w hadborth.
- Cysondeb gyda chydweithwyr mewn prifysgolion eraill. Mae'r mwyafrif o brifysgolion yn y DU a Chymru'n defnyddio systemau e-gyflwyno.

OES YMGYNGHORIAD WEDI'I GYNNAL Â'R MYFYRWYR?

Oes. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi bod ynghlwm â'r gwaith o roi'r prosiect hwn ar waith.

OES YMGYNGHORIAD WEDI'I GYNNAL Â STAFF?

Mae nifer o staff academiaidd ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Mae'r grŵp hefyd wedi cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Astudiaethau Israddedig ac Uwchraddedig i drafod y prosiect a'i waith. Cyfarfu aelod o'r grŵp â staff gweinyddol o bob adran a chynhaliwyd cyflwyniad gyda sesiwn holi ac ateb yn y Fforwm Gweinyddol. Byddwn yn ceisio sicrhau cyflwyniad byr gan aelod o'r staff academiaidd mewn cyfarfodydd adran yn ystod mis Mawrth, Ebrill a Mai 2014.

A FYDD Y SYSTEM YN CAEL EI HADOLYGU?

Bydd. Fe fydd y system yn cael ei hadolygu'n barhaus unwaith y bydd Cam 1 wedi'i lansio ym mis Medi 2014 a bydd gwelliannau'n cael eu cyflwyno fel bo'n briodol.

Y GYMRAEG

YDY TURNITIN YN CYDNABOD Y GYMRAEG?

Ydy. Caiff ei ddefnyddio gan yr holl SAUau eraill yng Nghymru ac felly mae'r gronfa ddata o aseiniadau Cymraeg yn sylweddol. Mae hyn yn golygu y bydd yr elfen Gwirio Gwreiddioldeb yn gwirio yn erbyn deunydd Cymraeg a gyflwynwyd mewn sefydliadau eraill.

A FYDD Y SYSTEM YN DDWYIEITHOG?

Ddim ar hyn o bryd. Mae'r mater wedi'i godi gyda Turnitin. Rydym yn llobio'r cwmni ar y cyd â'r prifysgolion Cymreig eraill. Bydd yr holl destun y mae modd ei olygu ar gael yn ddwyieithog. Bydd y testun sydd dan reolaeth y darparwr meddalwedd yn Saesneg yn unig, ond rydym ni'n llobio Turnitin i ddarparu rhyngwyneb dwyieithog i'r system gyfan.

CYFLWYNO AR-LEIN

A FYDD CYFLWYNO AR-LEIN YN GYMWYS I BOB MODIWL A PHOB MYFYRIWR?

Y bwriad yw y bydd cyflwyno ar-lein yn weithredol ar gyfer pob myfyriwr a'r holl asesiadau testun ar fodiwlau o fis Medi 2014. Bydd yr holl waith testun ar brosesydd geiriau gan israddedigion ac uwchraddedigion yn defnyddio'r drefn hon. Bydd cyfle i adrannau wneud cais am eithriadau ar gyfer rhai modiwlau neu elfennau asesu penodol drwy gysylltu â'r Cyfarwyddwr Astudiaethau Israddedig neu Uwchraddedig yn eu Sefydliad.

Mae rhai mathau o asesiadau (llyfrau nodiadau, paentiadau, darluniau, cerfluniau, perfformiadau a rhai eitemau ffisegol eraill) yn anaddas i'w cyflwyno ar-lein a chaiff rhai asesiadau eu cyflwyno eisoes drwy feddalwedd arbenigol. Yn y ddau achos caiff proses amgen ei gweithredu gan yr adrannau perthnasol.

BETH FYDD YN DIGWYDD GYDA THRAETHODAU HIR?

Bydd Adrannau/Sefydliadau'n cael penderfynu drostynt eu hunain a fydd myfyrwyr yn cyflwyno eu traethodau hir ar bapur neu'n electronig.

PA FEDDALWEDD FYDD YN CAEL EI DDEFNYDDIO?

Caiff e-gyflwyno ei wneud drwy AberLearn Blackboard. Bydd staff yn gallu dewis rhwng defnyddio'r offeryn Blackboard Assignment a Turnitin – sy'n gweithredu oddi mewn i AberLearn Blackboard. Bydd pa offeryn a ddefnyddir yn dibynnu ar natur yr aseiniad. Gall y Tîm Blackboard gyngori pa un yw'r mwyaf addas. Gallwch hefyd edrych ar siart cymharu yn <http://nexus.aber.ac.uk/xwiki/bin/download/Main/guides+-+Blackboard/esubfeatures2013.pdf>

Nodwch y bydd yr offeryn SafeAssign yn cael ei ddileu erbyn diwedd haf 2014

OES CWESTIYNAU CYFFREDIN AR GAEL AR GYFER DEFNYDDIO TURNITIN?

Oes, ceir cyfarwyddiadau a fideos am ddefnyddio Turnitin yma:

<http://nexus.aber.ac.uk/xwiki/bin/view/Main/turnitin>

YDY HYN YN DDIOGEL?

Ydy, yn fwy diogel na chopi papur. Mae'r holl waith a gaiff ei gyflwyno i'r offeryn Blackboard Assignment yn cael ei gadw o fewn Blackboard PA a chaiff copi wrth gefn ei wneud ynghyd â deunyddiau eraill. Caiff copi wrth gefn o'r gwaith a gyflwynir i Turnitin ei wneud yn allanol gan Turnitin. Mae'n bosibl hefyd i adrannau/Athrofeydd greu copi digidol wrth gefn o Blackboard. O ran diogelwch data mae'r system yn defnyddio amgryptio SSL ac mae'n cydymffurfio â rheoliadau Safe Harbour yr UE.

BETH AM GWESTIYNAU MOESEGOL YNGLŶN Â CHADW GWAITH MYFYFWYR 'AR-LEIN'?

Yn ôl gwefan Turnitin, mae myfyrwyr yn cadw hawlfraint eu gwaith hyd yn oed os caiff ei ddefnyddio gan Turnitin i ganfod achosion o gydweddu testun mewn gwaith arall. Os ceir cydweddu â gwaith myfyriwr

mewn sefydliadau eraill, nid oes modd adnabod y myfyriwr yn bersonol ac nid yw testun y cyflwyniad sy'n cydweddu i'w weld. Mae Llys Rhanbarthol UDA a'r Llys Apêl wedi dyfarnu bod defnydd o Turnitin yn dderbyniol yn gyfreithiol. Gall sefydliadau ddewis peidio â chyflwyno'r gwaith i gronfa ddata Turnitin.

MARCIO

OES RHAID I FI FARCIO AR-LEIN / AR SGRIN O FIS MEDI 2014 YMLAEN?

Nac oes, mater personol i bob aelod o staff yw marcio. Nod y prosiect yw cadw elfen o ddewis o ran marcio **ond anogir staff i ddarparu adborth ar-lein**. Gall staff sy'n dymuno marcio ar-lein wneud hynny ar unwaith ac fe'u hanogir i ddechrau defnyddio'r system gyda'u modiwlau cyn ei roi ar waith yn llawn ym mis Medi 2014. Bydd angen i staff gweinyddol gael rhestr o ba fodiwlau a gaiff eu marcio ar-lein a pha fodiwlau fydd angen eu hargraffu.

A FYDD GWAITH CWRS Y MYFYRWYR YN DDIENW?

Bydd. Mae Blackboard Assignment a Turnitin yn cefnogi marcio dienw.

Gyda Turnitin, mae'r marcio'n ddiennw hyd at y Dyddiad Postio, sef y dyddiad y mae marciau ac adborth ar gael i fyfyrwyr ac y caiff marciau eu postio ar y Ganolfan Raddau. Unwaith y bydd y marciau wedi'u postio, caiff yr enwau eu datgelu o fewn y system ac nid oes ffordd i'w gwneud yn ddiennw unwaith eto.

ERBYN I'R ACADEMYDDION DDERBYN ASESIAU WEDI'U HARGRAFFU I'W MARCIO BYDDANT YN DDIENW. OES AP AR GAEL I DDYFEISIADAU ANDROID YN DEBYG I'R AP APPLE AR GYFER MARCIO TABLED?

Ar hyn o bryd mae Turnitin wedi ymrwmo i gynhyrchu ap ar gyfer iOS (Apple) yn unig. Mae pwysau cynyddol am ap Android, ond nid oes gennym unrhyw reolaeth uniongyrchol dros hyn. Byddwn yn parhau i lobio am ap Android.

A FYDDWN NI'N DAL I ALLU DEFNYDDIO BLAENDDALENNAU NEU GRIDIAU MARCIO?

Bydd 'blaenddalen' (taflen datganiad) safonol y bydd myfyrwyr yn ei 'llofnodi' i gadarnhau mai eu gwaith nhw eu hunain sy'n cael ei gyflwyno.

Mae sawl ffordd i ddefnyddio gridiau marcio neu blaenddalennau gyda chyflwyno electronig. Cynghorir chi i ymgynghori â'r Tîm E-ddysgu i weld beth yw'r ffordd orau i wneud hyn.

ADBORTH

OES RHAID I FI DDYCHWELYD **ADBORTH** MYFYRWYR AR-LEIN O FIS MEDI 2014?

Nac oes, caiff staff sy'n dal i ddymuno marcio ar gopiau wedi'u hargraffu o draethodau a dychwelyd adborth yn y fformat hwn barhau i wneud hynny yn ystod cam cyntaf y prosiect. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw'n well ganddynt raddio copi wedi'i argraffu, anogir staff academiaidd i gyflwyno adborth wedi'i deipio drwy Blackboard Assignment/Turnitin. Bydd y prosiect yn parhau i gynnig cymorth a hyfforddiant i staff academiaidd drwy gydol 2014-2015 â'r nod o gynyddu'r nifer o staff sy'n darparu adborth yn electronig. Mae'n bwysig fod adrannau'n egluro'r trefniadau i fyfyrwyr ar gyfer derbyn adborth ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd. **O'r trafodaethau rydym ni wedi'u cael gydag Undeb y Myfyrwyr yn ogystal â chanlyniadau arolwg gan fyfyrwyr yn y peilot, byddai'n well gan fyfyrwyr dderbyn adborth mewn fformat electronig.**

PRYD FYDD YR ADBORTH YN CAEL EI DDYCHWELYD I FYFYRWYR?

Ar ddyddiad penodol o fewn y cyfnod dychwelyd o dair wythnos, caiff adborth a marciau eu rhyddhau i fyfyrwyr ar y modiwl. Caiff hyn ei reoli drwy osodiad ar Turnitin a elwir y 'Dyddiad Postio'. Mae modd ei newid yn rhwydd drwy'r ddewislen 'Golygu Gosodiadau'.

SUT FYDD E-GYFLWYNO AC E-ADBORTH YN CYSYLLTU Â PHOLISI'R BRIFYSGOL AR ASESU AC ADBORTH?

Mae'r brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i gael adborth amserol a phriodol ar waith cwrs myfyrwyr, o fewn set o egwyddorion arweiniol. Mae modd cyflawni hyn mewn nifer o ffyrdd, nid yn electronig yn unig. Er enghraifft bydd tiwtorialau wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn ddull pwysig o gyflwyno adborth mewn llawer o adrannau. Fodd bynnag gall defnyddio e-adborth hwyluso cyflwyno marciau ac adborth yn gynt, gan gynnig cyfleoedd i ddarparu adborth mewn ffyrdd gwahanol sy'n gallu cynyddu effeithiolrwydd. Fel unrhyw offeryn, bydd ei effeithiolrwydd yn dibynnu ar sut y caiff ei ddefnyddio.

YDY HI'N BOSIBL I STAFF GWEINYDDOL FONITRO'R TERFYN AMSER O 3 WYTHNOS AR GYFER MARCIO AC ADBORTH?

Drwy'r swyddogaeth 'gweinyddydd adrannol' bydd gweinyddwyr adran yn gallu cysylltu ag AberLearn Blackboard. Drwy ddefnyddio'r swyddogaeth hon i edrych ar y modiwlau bydd staff yn gallu edrych ar y Ganolfan Raddau i weld a oes marciau wedi'u hychwanegu. Bydd modd caniatáu i Gyfarwyddwyr Astudiaethau Israddedig neu Uwchraddedig gysylltu â chysiau AberLearn Blackboard yn yr un modd. Os nad yw staff yn defnyddio AberLearn Blackboard ar gyfer marcio a dychwelyd graddau bydd angen trefniadau eraill.

ARGRAFFU

YDY HI'N BOSIBL ARGRAFFU ASEINIADAU O TURNITIN?

Ydy mae'n bosibl argraffu aseiniad unigol neu 'swp-argraffu' yr holl bapurau a gyflwynir ar gyfer darn aseiniad penodol.

Mae system wedi'i sefydlu gydag ystafell argraffu PA i argraffu aseiniadau ar fodiwlau mawr o fewn tri diwrnod gwaith. Cynghorir adrannau i ddefnyddio'r system hon ar gyfer yr holl fodiwlau mawr; gellid argraffu modiwlau llai ar argraffyddion adrannol (gan ddefnyddio'r cod swp-argraffu a gaiff ei gylchredeg i'r adrannau).

Caiff staff gweinyddol eu hyfforddi yn ystod yr haf gan fod hyn yn ddull newydd o brosesu traethodau. Bydd siart llif manwl yn cael ei ddarparu i ddangos yn union sut mae'r broses yn gweithio.

SUT FYDD ARGRAFFU'N CAEL EI ARIANNU I'R STAFF HYN NY NAD YDYNT YN MARCIO AR-LEIN?

Yn ystod y flwyddyn gyntaf (2014-2015) bydd cost anfon gwaith i'r Ystafell Argraffu yn cael ei thalu'n ganolog. Caiff hyn ei fonitro a'i adolygu bob chwe mis. Bydd y Gwasanaethau Gwybodaeth hefyd yn adolygu costau'n gysylltiedig ag argraffu yn yr adrannau bob blwyddyn. Anogir adrannau i ddefnyddio marcio ar-lein er mwyn lleihau'r angen i argraffu aseiniadau.

OS CAIFF Y GWASANAETH ARGRAFFU CANOLOG EI DDEFNYDDIO, A FYDD HYN YN PERI OEDI I'R CYFNOD DYCHWELYD O 3 WYTHNOS?

Mae'r Ystafell Argraffu wedi cytuno ar gyfnod dychwelyd o dri diwrnod gwaith.

YSTYRIAETHAU YMARFEROL

BETH SY'N DIGWYDD OS YW'R SYSTEMAU CYFRIFIADUR YN TORRI?

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth yn ymgynghori'n eang ynglŷn ag amseru gwaith cynnal a chadw. Nid yw'r Gwasanaethau Gwybodaeth yn cynllunio gwaith cynnal a chadw yn ystod cyfnod addysgu ac mae'r holl waith yn cael ei amserlennu ar gyfer cyfnod gwyliau. Mae Turnitin yn ymrwmo i sicrhau bod eu systemau ar gael "o leiaf 98% o'r amser yn ystod pob mis ... ar wahân i waith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio ac atgyweiriadau". Bydd y Gwasanaethau Gwybodaeth yn hysbysu am unrhyw doriad arfaethedig i Blackboard a Turnitin drwy'r Ebst Wythnosol, newyddion y GG, Facebook a Turnitin, a negeseuon ar Blackboard ei hun. Mae'n bosibl y ceir toriadau anrhagweledig a bydd y Gwasanaethau Gwybodaeth yn rhannu manylion am unrhyw broblemau mor eang â phosibl.

YDY HI'N BOSIBL ATAL TURNITIN RHAG TYNNU DOLENNI GWE YNG NGWAITH Y MYFYRWYR?

Y rheswm am hyn yw bod Turnitin yn creu fersiwn o'r ddogfen i'w marcio ar-lein yn awtomatig. Rydym ni wedi codi'r mater hwn gyda Turnitin, ac mae prifysgolion eraill hefyd wedi ei nodi. Yn anffodus nid yw hwn yn newid y gellir ei wneud yn lleol yn PA.

YDY HI'N BOSIBL DYRANNU MARCIO I WAHANOL AELODAU O STAFF SY'N MARCIO FEL TÎM?

Gellir gwneud hyn gyda'r offeryn Grŵp yn Blackboard. Gellir gwneud hyn cyn marcio'r traethodau neu gellir ei sefydlu'n ddiweddarach. Gall y Tîm Blackboard gynghori.

SUT CAIFF Y GWAITH EI ARCHIFO?

Y ffordd orau o archifo aseiniadau Turnitin yn y tymor hir yw lawrlwytho'r ffeil zip o gyflwyniadau a gwneud copi wrth gefn yn lleol. Cyfnod cadw gwaith sydd wedi'i asesu yn PA yw chwe mis ar ôl symud i Ran 2 ar gyfer gwaith Rhan 1, a 6 mis ar ôl graddio ar gyfer gwaith Rhan 2. Bydd angen i adrannau gytuno ar strwythur storio synhwyrol a chonfensiynau enwi ffeiliau synhwyrol, yn ogystal â threfniadau ar gyfer gwaredu ffeiliau ar ddiwedd y cyfnod cadw.

BETH AM YSTYRIAETHAU IECHYD A DIOGELWCH?

Er bod marcio ar-lein yn golygu treulio amser ychwanegol o flaen cyfrifiadur ar adegau penodol o'r flwyddyn, cyhyd â bod canllawiau arferol PA yn cael eu dilyn ni ddylai hyn olygu cynnydd mawr yn y perygl o straen i'r llygaid neu RSI. Byddem ni'n cynghori staff i ymgynghori ag asesydd Cyfarpar Sgrin Arddangos eu hadran os oes ganddynt unrhyw broblemau.

Wrth gwrs, mae ymchwil yn dangos bod osgo gwael, golau isel, peidio â chymryd digon o seibiau ac ati wrth weithio ar gyfrifiadur yn gallu achosi problemau iechyd i bobl, ond mae'n debygol bod yr un peth yn wir am farcio papur (er nad oes fawr ddim ymchwil wedi'i wneud yn y maes hwn oherwydd nad yw'n 'dechnoleg newydd') a dylid dilyn yr un egwyddorion o ran osgo da, golau da, seibiau ac ati sy'n berthnasol i farcio ar-lein wrth farcio papur.

Ceir rhagor o wybodaeth PA yma:

- <http://www.aber.ac.uk/en/hse/proc-prac/dse/>
- <http://www.aber.ac.uk/cy/hr/employment-information/eyetest/>
- <http://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/humanresources/employmentinformation/flexibleworkingpolicy/Homeworking---Self-Assessment-Checklist.pdf>

Ceir rhagor o wybodaeth gyffredinol am farcio ar-lein yma:

- <https://as.exeter.ac.uk/online-marking/>
- <http://www.bris.ac.uk/esu/e-learning/support/tools/e-submission/>

Dylid cyfeirio pryderon penodol at y swyddog diogelwch adrannol yn y lle cyntaf. Caiff canllawiau pellach eu cyhoeddi dros fisoedd yr haf.

HYFFORDDIANT

PA HYFFORDDIANT SYDD AR GAEL?

Bydd Tîm E-Ddysgu'r Gwasanaethau Gwybodaeth yn trefnu sesiynau hyfforddi dros yr haf a bydd aelodau academiaidd o'r tîm prosiect yn ymweld ag adrannau i drafod y system.

Llysenhadon Academiaidd: Eisoes mae llawer o staff academiaidd yn defnyddio marcio ar-lein yn PA. Mae'r unigolion isod ar gael i helpu a chynghori staff academiaidd yn ogystal â'r tîm e-ddysgu:

- Rupert Marshall (IBERS) – rmm@aber.ac.uk
- Prysor Mason Davies (Addysg) – pyd@aber.ac.uk
- Madeline Carr (Gwleidyddiaeth Ryngwladol) – mac64@aber.ac.uk
- Victoria Wright (Seicoleg) – viw8@aber.ac.uk
- Mike Rose (IBERS) – mir@aber.ac.uk